# Agenda - Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 21 Mai 2019

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Meriel Singleton**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddSafonau@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(09.30)

**2.1 Gohebiaeth y Pwyllgor: Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (15 Mawrth 2019)**

(Tudalennau 1 - 2)

## 3 Lobïo: Gohebiaeth gan y Pwyllgor Deisebau (22 Mawrth 2019)

(09.35 - 09.45) (Tudalennau 3 - 6)

SoC(5)-07-19 Papur 1 - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau (15 Mawrth 2019)

SoC(5)-07-19 Papur 2 - Ymateb Drafft y Pwyllgor

## 4 Adolygiad o'r Cod Ymddygiad: Gohebiaeth gan Llywydd (7 Mai 2019)

(09.45 - 10.00) (Tudalennau 7 - 23)

SoC(5)-07-19 Papur 3 - Llythyr gan Llywydd (7 Mai 2019)

## 5 Cod Ymddygiad - Adolygiad

(10.00 - 10.40) (Tudalennau 24 - 30)

SoC(5)-07-19 Papur 4 - Diwygiadau drafft i'r Cod Ymddygiad

SoC(5)-07-19 Papur 5 - Aelodau Lleyg ar Bwyllgorau Safonau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

## 6 Bwrdd Taliadau: Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad

(10.40 - 11.00) (Tudalennau 31 - 54)

SoC(5)-07-19 Papur 6 - Dogfen Ymgynghori

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Eitem 2.1

Cadeiryddion y Pwyllgorau

15 Mawrth 2019

Annwyl Gadeiryddion

**Cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru**

Ym mis Chwefror 2018, gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad ***Llywodraethiant yn y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd***. Ei bwrpas oedd archwilio perthnasoedd rhynglywodraethol presennol i benderfynu a ydynt yn addas i'r diben, ac i asesu a oes angen iddynt newid.

Argymhelliad olaf ein hadroddiad oedd y dylai Llywodraeth Cymru lunio cytundeb gyda'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i gefnogi ei waith craffu ar weithgarwch Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.

Daeth y Pwyllgor i gytundeb â Llywodraeth Cymru ac ym mis Ionawr eleni, gosododd **adroddiad** gerbron y Cynulliad, a oedd yn ymgorffori'r cytundeb.

Yn dilyn y ddadl a gynhaliwyd ar yr adroddiad a'r cytundeb yr wythnos diwethaf, roeddwn yn meddwl y byddai'n briodol ysgrifennu at bob Cadeirydd, gan dynnu sylw at y cytundeb, fel y gall pwyllgorau asesu sut y byddent yn dymuno ei ddefnyddio wrth graffu ar Lywodraeth Cymru.

Mae'r cytundeb ar gael ar ein gwefan a byddaf yn sicrhau ei fod ar gael i glercod pwyllgorau.

Yn gywir

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565



**Mick Antoniw**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Deisebau

National Assembly for Wales
Petitions Committee

Eitem 3

Jayne Bryant AC
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

22 Mawrth 2019

Annwyl Jayne

**Deiseb P-05-818 Cyflwyno Cofrestr o Lobïwyr yng Nghymru**

Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi bod yn ystyried y ddeiseb uchod ers mis Gorffennaf 2018.

Y tro diwethaf i ni ystyried y ddeiseb oedd yn ein cyfarfod ar 5 Mawrth a chytunwyd y dylwn ysgrifennu atoch i ofyn:

- am amlinelliad o unrhyw ystyriaeth y mae'r Pwyllgor wedi'i rhoi'n flaenorol i'r manteision o gyflwyno cofrestr statudol o lobïwyr yng Nghymru;
- a wnaeth y Pwyllgor edrych ar fodelau ar gyfer cofrestru lobïwyr a ddefnyddir mewn mannau eraill, gan gynnwys Senedd Ewrop;
- a roddwyd ystyriaeth i'r posibilrwydd o godi tâl ar unigolion neu sefydliadau i gofrestru er mwyn rheoli'r gost o gyflwyno'r mesur yma; ac
- am wybodaeth am unrhyw waith pellach y mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn bwriadu ei wneud ynghylch y mater hwn.

Mae rhagor o wybodaeth am y ddeiseb, gan gynnwys y testun llawn a'r ohebiaeth a ddaeth i law hyd yn hyn, ar gael ar y wefan yn:
**http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=21900&Opt=0**

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon eich ymateb drwy neges e-bost at y tîm clercio yn *SeneddDeisebau@cynulliad.cymru*.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â thîm clercio'r Pwyllgor yn y cyfeiriad e-bost uchod, neu ar 0300 200 6379.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDeisebau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPetitions@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Yn gywir

Janet

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDeisebau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPetitions@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

# Eitem 4

Jayne Bryant AC
Cadeirydd, Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: EJ/CS

07 Mai 2019

Annwyl Jayne

**Diweddariad ar Urddas a Pharch**

Ar 1 Ebrill, trafododd Comisiwn y Cynulliad ystod o ddiweddariadau ar waith Urddas a Pharch y Cynulliad. Mewn gohebiaeth flaenorol, dywedasom y byddem yn diweddaru'r Pwyllgor ar y cynnydd.

Mae'n bleser gennyf atodi dau adroddiad i'r Pwyllgor eu nodi:

- Yr adroddiad ar y broses siopa dirgel a gynhaliwyd ddiwedd 2018 mewn ymateb i argymhelliad 8 o'ch adroddiad, sef Creu'r Diwylliant Cywir.
- Tabl diweddaru ar yr argymhellion a gafwyd gan Gomisiwn y Cynulliad mewn ymateb i'ch adroddiad.

Gobeithiaf y gwelwch fod y ddau adroddiad yn rhoi sicrwydd bod llawer o waith wedi'i wneud i sefydlu diwylliant o urddas a pharch yn y Cynulliad. Byddwch yn sylwi bod rhagor o waith wedi'i gynllunio yn y misoedd i ddod - yn enwedig yr arolwg blynyddol a fydd yn mesur yn benodol a yw unigolion wedi cael profiad o ymddygiad amhriodol neu arsylwi arno ers ein harolwg diwethaf. Yn dilyn hynny, rydym yn cynllunio ymgyrch a fydd yn diweddaru ac yn ail-ddosbarthu posteri gwybodaeth ac yn codi ymwybyddiaeth ymhellach fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor.

Mae'r Comisiwn wedi nodi adroddiad y broses siopa dirgel a roddodd sicrwydd i ni, unwaith eto, fod y tudalennau gwe diwygiedig a gyflwynwyd ym mis Mai 2018

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

yn hawdd eu defnyddio ac yn hygyrch – rhywbeth rydym yn deall roedd y Pwyllgor am i ni ei brofi.

Fel y gwyddoch, ers mis Tachwedd mae gennym gydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y cymorth a ddarperir i'r Comisiynydd Safonau annibynnol. Yn ogystal â hyn, mae'n bleser gennym ein bod wedi gallu darparu arbenigedd allanol mewn perthynas â chefnogaeth a chwynion am aflonyddwch rhywiol neu ymddygiad rhywiol amhriodol. Mae'r canllawiau Urddas a Pharch yn cael eu diweddaru i adlewyrchu'r ddarpariaeth hon ac i arwain darpar achwynwyr i'r gefnogaeth arbenigol sydd ar gael. Mae'r gefnogaeth ychwanegol hon yn cael ei darparu gan Ymddiriedolaeth y Goroeswyr yn dilyn proses dendro gystadleuol.

Yn fy llythyr dyddiedig 30 Hydref, dywedais y byddem yn trafod argymhelliad y Pwyllgor ar y posibilrwydd o gael dull hysbysu'n ddienw. Rydym wedi trafod hyn yn fanylach yng nghyfarfod y Comisiwn ar 1 Ebrill ar ôl ymweliad â Phrifysgol Caerdydd a gynhaliwyd gan swyddogion ym mis Rhagfyr 2018. Mae'n amlwg y bu manteision i garfan y Brifysgol, sef rhyw 31,000 o fyfyrwyr, ac mae wedi dyfeisio system sy'n gweithio i'r sefydliad hwnnw.

Mae llawer o'r gwasanaeth a ddarperir yn y lleoliad hwnnw yn cael ei ddarparu yn y Cynulliad gan ein Swyddogion Cyswllt. Mae sgyrsiau'n gyfrinachol eu natur ac mae'r weithdrefn adrodd yn ôl i'r Pennaeth Adnoddau Dynol sydd â rôl benodol i nodi patrymau sy'n dod i'r amlwg, yn cael ei chynnal yn ddienw. Ni ellir gwneud cwynion ffurfiol yn ddienw yn y naill sefydliad na'r llall fel ei bod yn deg i'r holl bartïon dan sylw.

Mae'r Comisiwn wedi trafod yr ystadegau diweddaraf yn ymwneud â chysylltu â'n Swyddogion Cyswllt ers iddynt gael eu penodi ym mis Mai 2018. Rydym yn falch bod y gwasanaeth gwell hwn yn ymsefydlu'n dda ac mae'n amlwg ei fod yn dod yn wasanaeth y gellir ymddiried ynddo sy'n rhoi cyngor sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, arweiniad a chefnogaeth emosiynol.

Fodd bynnag, nid ydym yn teimlo ein bod mewn sefyllfa i wneud penderfyniad ffurfiol ar argymhelliad y Pwyllgor ar hysbysu'n ddienw ar hyn o bryd. Mae'r Comisiwn wedi cytuno i edrych ar y mater hwn eto, unwaith y bydd canlyniadau'r arolwg urddas a pharch blynyddol yn hysbys. Byddem hefyd yn awyddus i ystyried unrhyw waith arall ar weithdrefnau cwyno pleidiau a wneir gan y Comisiynydd

Safonau ac unrhyw effaith o waith parhaus y Pwyllgor ar y cod ymddygiad wrth ddod i benderfyniadau ynghylch prosesau adrodd yn y dyfodol.

Ar ôl i'r meysydd gwaith hyn ddod i ben, rydym yn bwriadu adolygu ein holl bolisïau a gwasanaethau gwell i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at y diben ac yn ein helpu i feithrin y diwylliant sefydliadol y mae gennym fuddiant a rennir i'w gyflawni.

Yn gywir,

Elin Jones AC
Llywydd

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

**Arolwg Siopa Dirgel**

Yn ei adroddiad, sef Creu'r Diwylliant Cywir, argymhellodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i Gomisiwn y Cynulliad gynnal arolwg siopa dirgel:

*Argymhelliad 8: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn cynnal proses "siopa dirgel" ar y deunydd presennol ar sut i wneud cwyn i sicrhau bod y wybodaeth sydd ar gael yn hygyrch ac yn hawdd ei defnyddio erbyn diwedd 2018.*

Derbyniodd y Comisiwn yr argymhelliad hwnnw a chynhaliwyd arolwg siopa dirgel rhwng 14 a 30 Tachwedd. Yn seiliedig ar bryderon y Pwyllgor, gwnaethom ofyn i'r rhai a gymerodd ran i ddod o hyd i'r ffordd o dudalen hafan y Cynulliad i'n tudalennau Urddas a Pharch, ymateb i nifer o senarios i brofi eglurder y wybodaeth, a gofyn iddynt asesu'r derminoleg, yr hygyrchedd a gwelliannau eraill y dylem feddwl amdanynt yn y dyfodol.

Gofynnwyd i 12 unigolyn gymryd rhan a chafwyd 7 ymateb gan y rhai a ganlyn:

- 3 sy'n allanol i'r Cynulliad ac mewn mannau eraill yn y DU
- 1 aelod o staff Comisiwn y Cynulliad (Tŷ Hywel)
- 3 aelod o staff a gyflogir gan Aelodau'r Cynulliad (Tŷ Hywel a swyddfeydd etholaeth)

Mae'r holl gwestiynau wedi'u nodi isod ynghyd â chrynodeb o'r ymatebion a gafwyd a'r camau gweithredu a nodwyd.

1. Roeddem am brofi a allai unigolion ddod o hyd i'r ffordd o dudalen hafan y Cynulliad i'n tudalennau cwynion.

***Ar wefan y Cynulliad, www.cynulliad.cymru, hoffem i chi brofi, pe baech yn dymuno gwneud cwyn am ymddygiad amhriodol, a fyddech yn gallu dod o hyd yn gymharol hawdd i'r wybodaeth am sut i wneud cwyn o'r fath. Rhowch unrhyw sylwadau yma:***

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

**Crynodeb o'r ymatebion**

Dywedodd tri unigolyn ei fod yn hawdd mynd o dudalen hafan y Cynulliad i'n tudalennau Urddas a Pharch trwy ddefnyddio'r tab 'cwynion' ar waelod y brif dudalen.

Dywedodd pedwar o'r rhai a gymerodd ran ei fod yn cymryd amser, roedd yn anodd gweld y tab 'cwynion' neu nad oedd yr opsiwn 'chwilio' yn arwain at lwybr clir i'r dudalen gywir.

**Dadansoddiad:** Mae chwiliadau ar ein gwefan ar gyfer 'Urddas a Pharch' yn rhoi canlyniadau cywir ond maent yn wael os ydych yn chwilio am 'complaint' neu 'Member complaint'. Mae chwiliadau Google ar gyfer 'Assembly complaints', 'Assembly Member complaint' a 'complaints about Assembly Members' yn gymharol gywir.

**Cam gweithredu:** Rydym wedi gwneud gwelliannau technegol i gyfeirio chwiliadau ar ein gwefan at y tudalennau cywir. Mae gwelliannau i'r cynllun a'r opsiwn chwilio eisoes wedi'u nodi'n ofynnol ar gyfer prosiect y wefan a byddwn yn ystyried canfyddiadau'r broses siopa dirgel.

2. Gan fod gwahanol brosesau cwyno ar gyfer y gwahanol grwpiau o bobl sy'n gweithio yma, a chawsom adborth yn 2017 yn dweud na fyddai pobl yn gwybod sut i gwyno neu at bwy y dylent gyfeirio'r gŵyn, roeddem am brofi a ydym wedi cyflawni ein nod i arwain achwynwyr posibl i'r weithdrefn berthnasol mewn modd cymharol syml. Gwnaethom osod nifer o senarios hefyd i brofi a oedd yr achwynwyr yn deall y wybodaeth a roddwyd.

***A ydym wedi llwyddo i wneud set o drefniadau eithaf cymhleth yn hawdd cael mynediad atynt a'u dilyn? Rhowch unrhyw sylwadau sydd gennych o ran a yw'n hawdd cael mynediad at y trefniadau hyn.***

**Crynodeb:** Dywedodd chwech o'r rhai a gymerodd ran ein bod wedi llwyddo i wneud hyn, ond roedd un yn anghytuno. Dywedodd y mwyafrif eu bod yn glir, yn hawdd i'w deall ac wedi'u cyflwyno mewn ffordd syml trwy ddefnyddio'r canllawiau ar ein cwymplenni. Roedd yr awgrymiadau ar gyfer gwella yn cynnwys

(i) cynnwys lincs i gysylltu unigolyn â phwy bynnag y byddai'n cyfeirio'r gŵyn ato
(ii) pryder bod y canllawiau yn Gymraeg yn destun trwm ac y gellid eu rhoi ar ffurf pwyntiau bwled.

**Cam gweithredu:** Rydym eisoes wedi cytuno i ddarparu hyperlincs i weithdrefnau cwyno pleidiau gwleidyddol pan fydd y Comisiynydd Safonau wedi adolygu'r gweithdrefnau cwyno. Drwy wneud hynny, byddwn yn darparu cysylltiadau. Rydym yn bwriadu adolygu ein canllawiau yn ddiweddarach yn y flwyddyn a byddwn yn nodi'r sylw am y fersiwn Gymraeg.

**Gwnaethom osod nifer o senarios i brofi a oeddem yn darparu gwybodaeth glir a dealladwy i arwain unigolion i'r weithdrefn gywir:**

| |
|---|
| *Pe baech yn ohebydd yn y cyfryngau a bod gennych gŵyn yn erbyn Aelod Cynulliad, disgrifiwch yr opsiynau o ran llwybrau cwyno sydd ar gael i chi.*<br><br>Ateb: Rhoi gwybod i Gomisiynydd Safonau'r Cynulliad, neu ddilyn gweithdrefnau cwyno'r blaid wleidyddol ei hun.<br><br>Atebodd pob un a gymerodd ran yn gywir. |
| *Os ydych yn gweithio yn y Cynulliad yn gosod byrddau cylched trydan o dan gontract i Gomisiwn y Cynulliad a'ch bod yn penderfynu cwyno am aelod o staff sy'n rheoli'ch contract am ei fod wedi defnyddio iaith hiliol, at bwy y gallech gyfeirio eich cwyn?* |

| |
|---|
| **Ateb**: Rhoi gwybod i Adran Adnoddau Dynol y Cynulliad neu'r Prif Weithredwr a'r Clerc.<br><br>Atebodd pob un a gymerodd ran yn gywir. |
| *Os ydych yn cael eich cyflogi gan Aelod Cynulliad a'ch bod am wneud cwyn yn erbyn rhywun sy'n gweithio i blaid wleidyddol arall yn y Cynulliad, pa opsiynau sydd ar gael i chi?*<br><br>**Ateb**: Rhoi gwybod i'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau, a fydd yn codi'r mater gyda'r Aelod sy'n cyflogi, neu roi gwybod drwy weithdrefnau'r blaid wleidyddol ei hun os byddai'n well gennych wneud hynny.<br><br>Atebodd pob un a gymerodd ran yn gywir. |
| *Nid ydych yn gweithio yma, ond wrth fynd heibio i'r adeilad mae adeiladwr sy'n gweithio ar adeilad y Senedd, yn gwneud sylwadau rhywiaethol amdanoch, a yw'n glir sut y gallwch wneud cwyn ffurfiol yn ei erbyn?*<br><br>**Ateb**: Rhoi gwybod i'r Pennaeth Caffael neu'r Prif Weithredwr a'r Clerc.<br><br>Atebodd pob un a gymerodd ran yn gywir. |
| *Rydych yn cael eich cyflogi gan Aelod Cynulliad yr ydych o'r farn ei fod yn eich bwlio, ac rydych chi am wneud cwyn. Beth yw'r opsiynau sydd ar gael i chi a pha gefnogaeth allwch chi ei chael?*<br><br>**Ateb**: Rhoi gwybod yn uniongyrchol i Gomisiynydd Safonau'r Cynulliad neu roi gwybod drwy weithdrefnau'r blaid wleidyddol ei hun.<br><br>Atebodd pawb ond un a gymerodd ran yn gywir. Dywedodd un aelod o staff sy'n cael ei gyflogi gan Aelod Cynulliad y byddai'n mynd at y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau neu gynrychiolydd ei undeb llafur. Fodd |

| |
|---|
| bynnag, hyd yn oed os dilynwyd y llwybr anghywir i ddechrau, gwyddom y byddai'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau neu gydweithwyr undebau llafur yn gallu cyfeirio unigolyn at y llwybr cywir. |
| *Os ydych chi'n ansicr o ran sut i wneud cwyn, â phwy y dylech gysylltu?*<br><br>**Ateb**: Swyddog Cyswllt neu'r llinell gymorth ar 0800 020 9550.<br><br>Atebodd pob un a gymerodd ran yn gywir. |

3. Roeddem am brofi a oeddem yn defnyddio'r iaith gywir i sicrhau bod ein gwybodaeth yn hygyrch i'r defnyddwyr.

*Mae terminoleg yn bwysig. Fodd bynnag, gall fod yn rhwystredig pan fyddwn yn disgrifio pynciau yr ydym yn gyfarwydd â nhw. Er ein bod wedi ymdrechu i gyflwyno ein tudalennau gwe a'n gwybodaeth mewn ffordd sy'n hawdd i ddefnyddwyr ac yn hygyrch, a oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch a ydym wedi cyflawni ein nod?*

**Crynodeb**: Roedd y rhai a gymerodd ran o'r farn bod y wybodaeth a'r iaith yn glir ac yn hawdd i'w deall. Dywedodd un o'r bobl a ymatebodd y gallai fod yn orsyml i gyflogeion.

4. Gwnaethom wahodd sylwadau ychwanegol fel y gallem gynnwys rhagor o welliannau pan ddaw'r adeg i adolygu ein polisi a'n canllawiau Urddas a Pharch (ar ôl adroddiad nesaf y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, yn ôl pob tebyg).

*Ar hyn o bryd, mae ein polisi a'n canllawiau Urddas a Pharch yn sefydlogi. Mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad hefyd yn parhau â'i waith a bydd yn adrodd eto yn y*

***dyfodol. Felly, bydd angen i ni adolygu'r polisi, y canllawiau ac unrhyw newidiadau o ran arfer yn hwyrach yn 2019. Felly, byddem yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau cyffredinol eraill sydd gennych nad oeddent wedi'u cynnwys yn y cwestiynau penodol uchod y gallem eu hystyried yn ystod yr adolygiad hwnnw.***

**Crynodeb**: Ni roddodd y rhan fwyaf o'r rhai a gymerodd ran ragor o sylwadau. Fodd bynnag, cafwyd ychydig o awgrymiadau defnyddiol i'w hystyried ymhellach:

- Gan fod cymaint o ffyrdd o gwyno, efallai y byddai'n ddefnyddiol cael un ddogfen sy'n cynnwys yr holl wybodaeth er mwyn galluogi pobl i'w hargraffu a'i darllen.
- Nid oes dim canllawiau ar y wefan ynghylch sut i wneud cwyn am Weinidog nac o ran sut y mae'r broses honno'n wahanol o'i chymharu â gwneud cwyn yn erbyn Aelod Cynulliad.
- Byddai gwybodaeth benodol ar gyfer swyddfeydd etholaeth yn ddefnyddiol – yn enwedig pan fo'r Aelod sy'n cyflogi yn annibynnol.

**Cam gweithredu**: Byddwn yn ystyried y rhain yn ystod cyfarfod y Gweithgor Urddas a Pharch. Mae'r rhain i gyd yn sylwadau defnyddiol a allai roi mwy o eglurder i unigolion cyn y bydd adolygiad ffurfiol o'r polisi a'r canllawiau yn cael ei gynnal yn hwyrach yn 2019.

Diwedd

## Y Diweddaraf ar argymhellion y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i Gomisiwn y Cynulliad

### Swyddfa'r Comisiynydd Safonau

| Argymhelliad | Cynnydd |
|---|---|
| 13. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn gweithio gyda’r Comisiynydd Safonau i ddatblygu cynnig ar gyfer swyddogaeth gynghori a chymorth i ategu swyddogaethau swyddfa’r Comisiynydd erbyn gwanwyn 2019. | Dyfarnwyd contract ym mis Chwefror 2019 i Ymddiriedolaeth y Goroeswr yn dilyn proses dendro gystadleuol.<br>Rhoddir manylion cyswllt yn ein dogfen ganllaw urddas a pharch (gyda manylion ein Swyddogion Cyswllt).<br><br>Penodwyd dau secondai i swyddfa'r Comisiynydd (Tachwedd 2018).<br>Bydd staff yn cynorthwyo'r Comisiynydd wrth ganfod ffeithiau, gwaith ymchwiliol a drafftio, gan fyrhau'r amserlen ar gyfer ymchwiliadau o bosibl. Cydbwysedd rhwng y rhywiau wedi'i gyflawni. |

### Arolwg

| Argymhelliad | Cynnydd |
|---|---|
| 1. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn cyhoeddi arolwg urddas a pharch | |

| Argymhelliad | Cynnydd |
| --- | --- |
| blynyddol o Aelodau'r Cynulliad, staff cymorth a staff y Comisiwn ac yn cyflwyno'r canfyddiadau a chynllun gweithredu cysylltiedig i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad. | Mae Arolwg Urddas a Pharch Blynyddol yn cael ei lunio a bydd yn dechrau ym mis Mai 2019. Mae'n ystyried pob un o dri argymhelliad y Pwyllgor a dderbyniwyd. |
| 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn gwerthuso'r arolwg urddas a pharch blynyddol o Aelodau'r Cynulliad, staff cymorth a staff y Comisiwn ac yn ei ddatblygu i nodi math o ymddygiad amhriodol. | |
| 10. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr arolwg urddas a pharch blynyddol a/neu arolygon staff yn cynnwys cyfres o gwestiynau ynghylch ymwybyddiaeth o'r weithdrefn a'r prosesau ar gyfer gwneud cwynion. | |

**Cryfhau trefniadau ar gyfer contractau, prydlesi a digwyddiadau**

| **Argymhelliad** | **Cynnydd** |
|---|---|
| 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn cynnwys amod mewn lesoedd a chontractau ar gyfer defnyddio ystâd y Cynulliad bod yn rhaid i sefydliadau fod â pholisi urddas a pharch neu gytuno i arddel polisi urddas a pharch y Cynulliad. | Rydym wedi cyfarfod â phob un o'n contractwyr ar y safle, rhoi copi o'r polisi a chadarnhau y bydd angen iddynt hwy a'u staff gydymffurfio â'r polisi a'i ddilyn. Gwnaethant i gyd gadarnhau eu bod yn cytuno a dweud y byddent yn briffio staff fel rhan o'u cyfarfodydd tîm rheolaidd.<br><br>Mae GVA, fel ein Cynghorydd Ystadau ar gyfer is-denantiaid, wedi ysgrifennu at y BBC ac ITV i roi gwybod y byddwn yn cynnwys y gofyniad i gydymffurfio â'r polisi Urddas a Pharch mewn unrhyw is-les yn y dyfodol. Yn y cyfamser, rydym wedi rhoi copïau o'r polisi a chadarnhawyd ein disgwyliad y dylai eu gweithwyr sy'n gweithio ar ein hystâd gydymffurfio â'r polisi a gwnaethom dynnu sylw at y darn a ganlyn i'w raeadru a'i gyfleu ynghyd â'r polisi:<br>*Mae'r polisi'n nodi bod Comisiwn y Cynulliad yn disgwyl i unrhyw un sy'n defnyddio ein hadeiladau barchu'r rhai sy'n gweithio yma a chynnal y safonau ymddygiad uchel a nodir yn* |

| Argymhelliad | Cynnydd |
|---|---|
| | *y polisi hwn. Byddwn yn ymchwilio i unrhyw gwynion a wneir am ymddygiad unrhyw un sy'n ymgymryd â gwaith yn y Cynulliad Cenedlaethol, swyddfeydd etholaeth, neu ble bynnag yr ydym yn cynnal busnes neu sy'n ymweld â'r mannau hyn, a phan fo'n briodol, byddwn yn codi'r materion hyn gyda'u cyflogwr. Lle bo'n briodol, byddwn yn rhoi gwybod i'r heddlu am y mater.* |
| 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod cytundeb i gadw at y polisi urddas a pharch yn cael ei gynnwys wrth drefnu unrhyw ddigwyddiad. | Gweithredwyd hyn. Mae hyn bellach wedi'i gynnwys yn y dogfennau telerau ac amodau. |

**Datblygiad proffesiynol**

| Argymhelliad | Cynnydd |
|---|---|
| 5. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod hyfforddiant ar urddas a pharch yn y gweithle yn cael ei gynnwys fel | Wedi'i gwblhau Mae hyn bellach yn rhan o'n rhaglenni. |

| Argymhelliad | Cynnydd |
|---|---|
| rhan o'r broses gynefino, a'i fod yn cael ei gynnig o dro i dro yn ystod tymor pob Cynulliad. | Mae hyfforddiant ACAS yn cael ei gynnig i staff cymorth Aelodau'r Cynulliad mewn lleoliadau gwahanol ar draws Cymru.  Mae e-ddysgu ar gael hefyd. |
| 6. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn cynnig hyfforddiant penodol ym maes aflonyddwch rhywiol ac yn ymateb i ddatgeliadau o drais/aflonyddwch rhywiol, a bod angen yr hyfforddiant hwn ar unigolion dynodedig. | Dyfarnwyd contract i Ymddiriedolaeth y Goroeswyr ym mis Chwefror 2019 ar ôl proses dendro gystadleuol.  Trefnir hyfforddiant cychwynnol i unigolion a nodir ar gyfer gwanwyn/haf 2019. |
| 7. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn darparu hyfforddiant penodol i Aelodau Cynulliad ar reoli swyddfa fechan. | Wedi'i gwblhau Mae pecyn hyfforddiant ar gael ac yn cael ei ddefnyddio.<br><br>Rydym yn datblygu hwn fel pecyn e-ddysgu dwyieithog dros y misoedd nesaf. |

**Hygyrchedd gwybodaeth a pha mor hawdd ydyw i'w defnyddio**

| **Argymhelliad** | **Cynnydd** |
|---|---|
| 8. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn cynnal proses "siopa dirgel" ar y deunydd presennol ar sut i wneud cwyn i sicrhau bod y wybodaeth sydd ar gael yn hygyrch ac yn hawdd ei defnyddio erbyn diwedd 2018. | Arolwg siopa dirgel wedi'i gyhoeddi ar 14 Tachwedd 2018. Canlyniadau cadarnhaol fel y'u dangosir yn yr adroddiad cryno. |
| 11. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod polisi pob plaid ar gael ar y dudalen Cwynion ar wefan y Cynulliad, pan fydd y prosesau wedi'u cwblhau. | Gwnaethom ymrwymo i wneud hyn fel rhan o'r broses ymgynghori ar y polisi Urddas a Pharch. Ar ôl i'r Comisiynydd Safonau gwblhau ei adolygiad ar weithdrefnau cwyno pleidiau gwleidyddol, byddwn yn eu hychwanegu. |
| 14. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn datblygu dull o hysbysu ar-lein sy'n caniatáu i bobl roi gwybod am ddigwyddiadau o ymddygiad amhriodol naill ai'n ddienw neu drwy ddatgeliad ag enw erbyn haf 2019. | Bydd y Comisiwn yn ystyried y sefyllfa ar ôl yr arolwg Urddas a Pharch blynyddol. |

**Hyrwyddo**

| **Argymhelliad** | **Nodiadau** |
|---|---|
| 9. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn paratoi amrywiaeth o wybodaeth erbyn gwanwyn 2019 yn ymwneud ag urddas a pharch gan gynnwys taflenni, posteri a chynnwys ar-lein. Rhaid i’r wybodaeth hon fod ar gael yn rhwydd i bobl gael mynediad ati a dylai canfyddiadau’r broses siopa dirgel gyfrannu ati. | Mae gwaith hyrwyddo parhaus wedi bod yn cael ei wneud drwy gydol y flwyddyn. Rhoddir gwybodaeth yn ystod y cyfnod cynefino a hyfforddiant ymwybyddiaeth urddas a pharch penodol, gan gynnwys pecynnau gwybodaeth a roddir i gynrychiolwyr. Yn ogystal â phosteri yn Nhŷ Hywel, fe'u hanfonwyd i swyddfeydd etholaethol. Mae fideo newydd ar y fewnrwyd a bydd rhagor o gyhoeddusrwydd yn cael ei gyflwyno ar gyfer ein hymgyrch tystion gweithredol ym mis Mai a mis Mehefin. |
| 20. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod ymgyrch tystion gweithredol sy’n ymwneud ag ymddygiad amhriodol yn cael ei chynnal ar ystâd y Cynulliad, a bod pob Aelod Cynulliad yn cael ei annog i fod yn rhan o’r ymgyrch honno. | Mae'r ymgyrch wedi'i chynllunio ar gyfer mis Mai a mis Mehefin 2019 gydag Aelodau'r Cynulliad a'r staff yn cymryd rhan yn ystod yr wythnosau ar ôl yr arolwg urddas a pharch blynyddol. |

**Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad**

| **Argymhelliad** | **Nodiadau** |
|---|---|
| 15. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn sefydlu dull o hysbysu cynrychiolwyr y staff cymorth am ddechreuwyr newydd yn y grwpiau gwleidyddol erbyn mis Hydref 2018. | Wedi'i gwblhau erbyn y terfyn amser. Fel mater o drefn, rhoddir gwybod i aelodau'r grŵp sy'n cynrychioli Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad am ddechreuwyr newydd yn eu grwpiau gwleidyddol. |
| 16. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn gweithio gyda’r Bwrdd Taliadau i gyflwyno cynnig erbyn mis Rhagfyr 2018, ar y cymorth y gellir ei gynnig i staff cymorth sy’n gweithio i Aelodau Cynulliad annibynnol. | Wedi'i gwblhau. Mae'r Bwrdd Taliadau wedi cytuno y dylai aelod o staff, i gynrychioli staff a gyflogir gan Aelodau Cynulliad annibynnol, ymuno â Grŵp Cyfeirio Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad a gofynnwyd am enwebiad. Mae aelodaeth Grŵp Gweithredol Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad bellach yn cynnwys staff o swyddfeydd annibynnol. Yn unol â'r egwyddor y tu ôl i'r argymhelliad hwn, mae Cymorth Busnes yr Aelodau wedi ffurfioli'r rhwydwaith cymorth i gynorthwyo swyddfeydd Aelodau'r Cynulliad gyda'r newid i fod yn annibynnol ar grŵp gwleidyddol. |

# Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 6

# Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad:

## Ymgynghoriad ar rhan un o'r adolygiad

**Ebrill 2019**

BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

# Y Bwrdd Taliadau

Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Sefydlwyd y Bwrdd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010), a gafodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 22 Gorffennaf 2010.

# Aelodau'r Bwrdd

- Y Fonesig Dawn Primarolo DBE PC (Cadeirydd)
- Ronnie Alexander
- Trevor Reaney CBE
- Mike Redhouse
- Y Fonesig Jane Roberts

# Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

- Lleu Williams, Clerc
- Sian Giddins, Dirprwy Glerc

Gellir gweld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: **www.cynulliad.cymru**. Gellir cael copïau o'r adroddiad hwn hefyd ar ffurfiau hygyrch yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain neu gopïau caled gan:

**Clerc y Bwrdd Taliadau**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Taliadau@Cynulliad.Cymru**

# Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad:
Ymgynghoriad ar rhan un o'r adolygiad

**Ebrill 2019**

BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

# Cynnwys

**Sut i gyflwyno ymateb** .......................................................................... 1

**Cyflwyniad** .......................................................................................... 2

**Crynodeb o'r cynigion** .......................................................................... 3

**Polisi Preifatrwydd** .............................................................................. 4

**1. Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad** ............... 6

**2. Gwariant ar Lety Preswyl** ..................................................................... 8

**3. Lwfans Costau Swyddfa** ...................................................................... 11

**4. Siwrneiau'r Aelodau** ........................................................................... 17

**5. Cydraddoldeb** ..................................................................................... 19

# Sut i gyflwyno ymateb

Os hoffech gyflwyno ymateb i ymgynghoriad y Bwrdd Taliadau, gallwch wneud hynny drwy anfon eich ymatebion i'r cyfeiriad hwn:

Post:

Clerc y Bwrdd Taliadau,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: **taliadau@cynulliad.cymru**

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion yw dydd Gwener 7 Mehefin 2019. Ni fydd unrhyw ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried.

Os oes angen cymorth arnoch wrth baratoi eich ymateb, cysylltwch â'r ysgrifenyddiaeth (manylion uchod).

# Cyflwyniad

Yn ei strategaeth ar gyfer 2016-21, nododd y Bwrdd Taliadau ei egwyddorion a'i amcanion arweiniol ar gyfer ei dymor yn y swydd. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau ein bod yn deall eu hanghenion er mwyn llunio Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad flwyddyn cyn y dyddiad y disgwylir etholiad cyffredinol Cymru nesaf yn 2021.

Yn ystod ein trafodaethau dros y tair blynedd diwethaf, rydym wedi ymgysylltu ag Aelodau a staff cymorth droeon i ddeall pa ddarpariaethau yn y Penderfyniad sy'n gweithio'n dda a pha rai sydd angen eu hystyried ymhellach, ac os felly, eu newid. Mae'r adborth a gasglwyd dros y cyfnod hwn wedi dylanwadu ar ein trafodaethau ac ystyriaethau wrth i ni geisio llunio Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad sy'n rhoi lefel gadarn o gymorth i'r Aelodau yn ogystal â sicrhau nad oes rhwystrau ariannol i'r rhai sy'n dymuno cael eu hethol i'r Cynulliad.

Y ddogfen ymgynghori hon yw'r ddogfen gyntaf y bydd y Bwrdd yn ei chyhoeddi dros y misoedd nesaf, wrth i ni geisio casglu barn ar y cynigion a gyflwynir gennym ar gyfer newidiadau i'r Penderfyniad. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn amlinellu ein newidiadau arfaethedig mewn perthynas â'r gwariant llety preswyl a lwfansau costau swyddfa, yn ogystal â'r cymorth sydd ar gael ar gyfer Aelodau ar gyfer teithio ar fusnes y Cynulliad.

Mae rhai o'r newidiadau yr ydym wedi'u cynnig yn y ddogfen hon yn cael eu cyflwyno er mwyn egluro rhai darpariaethau neu adlewyrchu'r gweithgarwch sy'n digwydd mewn gwirionedd. Byddai cynigion eraill yn cyflwyno mesurau diogelu pellach. Gyda'i gilydd, mae'r dull hwn yn caniatáu i'r Bwrdd ddarparu Penderfyniad sy'n sicrhau y caiff arian y cyhoedd ei wario ag ‘uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder’, yn ogystal â rhoi lefel ddigonol o gymorth i’r Aelodau wneud eu swyddi. Yr ydym yn rhannu ein cynigion â chi gyda'r amcanion hyn mewn cof.

**Y Fonesig Dawn Primarolo**

**Cadeirydd y Bwrdd Taliadau Annibynnol**

# Crynodeb o'r cynigion

Mae'r Bwrdd yn bwriadu gwneud y newidiadau canlynol i'w Benderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad:

**Cynnig 1.** Byddai'r Bwrdd yn croesawu eich barn ar ei gynnig i ddileu, o adeg y diddymiad nesaf sy'n debygol o ddigwydd ym mis Ebrill 2021, y trefniadau pontio sydd ar waith i Aelodau hawlio taliadau llog morgais ac arian ar gyfer atgyweiriadau hanfodol ar eiddo y maent yn berchen arno.

**Cynnig 2.** Byddai'r Bwrdd yn croesawu eich barn ar ei gynnig i gyflwyno darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelodau ddychwelyd unrhyw ad-daliadau o gytundebau rhent i'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau.

**Cynnig 3.** Byddai'r Bwrdd yn croesawu eich barn ar ei gynnig i gyflwyno'r egwyddorion gorfodol ar gyfer swyddfeydd a ariennir drwy'r Penderfyniad fel yr amlinellir.

**Cynnig 4.** Byddai'r Bwrdd yn croesawu eich barn ar ei gynigion i ffurfioli'r canllawiau ar gyfer caffael swyddfeydd.

**Cynnig 5.** Byddai'r Bwrdd yn croesawu eich barn ar ei gynigion i gyflwyno darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelodau gynnal prisiad costau ar eu swyddfa ac adneuo copi o'r brydles gyda'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau fel yr amlinellwyd.

**Cynnig 6.** Byddai'r Bwrdd yn croesawu eich barn ar ei gynnig i ddiwygio'r lwfans cyflenwi dodrefn swyddfa fel yr amlinellwyd.

**Cynnig 7.** Byddai'r Bwrdd yn croesawu eich barn ar ei gynnig i'w gwneud yn ofynnol bod yr holl offer TGCh ychwanegol yn cael eu prynu drwy Gomisiwn y Cynulliad er mwyn sicrhau eu bod yn gydnaws â systemau TGCh y Cynulliad.

**Cynnig 8.** Byddai'r Bwrdd yn croesawu eich barn ar ei gynnig i ddiwygio'r rhestr o eitemau a ganiateir fel yr amlinellwyd.

**Cynnig 9.** Byddai'r Bwrdd yn croesawu eich barn ar ei gynnig i ddiwygio'r cymalau ar gyfer teithio ar fusnes pwyllgorau fel yr amlinellwyd.

# Polisi Preifatrwydd

Ceir trosolwg cyffredinol isod o'r ffordd y byddwn yn trin y wybodaeth a roddir gennych.

## Pwy ydym ni

Y Bwrdd Taliadau yw rheolydd data'r wybodaeth a roddir gennych, a bydd yn sicrhau y caiff y wybodaeth hon ei diogelu a'i defnyddio yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

## Pam rydym yn casglu'r wybodaeth hon

Caiff y sylwadau a gyflwynir gennych eu defnyddio er mwyn llywio adolygiad y Bwrdd Taliadau o'r cymorth staffio i'r Aelodau.

## Yr hyn fyddwn ni'n ei wneud â'r wybodaeth a gawn gennych

Bydd aelodau'r Bwrdd Taliadau ac ysgrifenyddiaeth y Bwrdd (cyflogeion Comisiwn y Cynulliad) sy'n rhan o'r ymgynghoriad yn gweld yr holl sylwadau a gyflwynir. Caiff eich gwybodaeth ei chadw ar rwydwaith TGCh Comisiwn y Cynulliad (sy'n cynnwys gwasanaethau cwmwl trydydd parti a ddarperir gan Microsoft). Mae unrhyw drosglwyddiad data gan Microsoft y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn dod o dan gymalau cytundebol lle mae Microsoft yn sicrhau bod data personol yn cael eu trin yn unol â deddfwriaeth Ewropeaidd.

## Cyhoeddi sylwadau a gyflwynwyd

Mae'n bosibl y bydd y Bwrdd Taliadau yn cyhoeddi'r sylwadau a gyflwynir gennych i'r ymgynghoriad hwn, yn rhannol neu'n llawn, ar wefan y Bwrdd. Mae hefyd yn bosibl y bydd yn cyhoeddi darnau o'r sylwadau a gyflwynir gennych mewn dogfennau a gaiff eu llunio ar ôl yr ymgynghoriad a'u cyhoeddi ar wefan y Bwrdd. Bydd sylwadau a gaiff eu cyflwyno a'u cyhoeddi ar wefan y Bwrdd yn parhau i fod ar gael i'r cyhoedd.

Rhowch wybod pe bai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'r sylwadau a gyflwynir gennych neu ddarnau ohonynt.

Os bydd y Bwrdd yn cyhoeddi sylwadau a gyflwynwyd gennych ar ran sefydliad, bydd yn cynnwys eich enw chi, teitl eich swydd, ac enw'r sefydliad gyda'ch sylwadau. Os bydd yn cyhoeddi sylwadau a roddwyd gennych chi'n bersonol, dim ond os ydych wedi gofyn i ni gyhoeddi eich enw y byddwn yn gwneud hynny.

## Am faint o amser y caiff eich gwybodaeth ei chadw

Caiff yr ymatebion eu cadw nes i'r Bwrdd Taliadau orffen yr ymgynghoriad ac unrhyw waith dilynol yn y meysydd a amlinellir yn y ddogfen hon. Rhagwelir y bydd hyn ym mis Mai 2020 gan fod y Bwrdd wedi ymrwymo i gyhoeddi ei Benderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad flwyddyn cyn etholiad cyffredinol Cymru yn 2021.

## Cysylltu â chi

Mae'n bosibl y bydd y Bwrdd yn defnyddio'r manylion cyswllt a roddir gennych i gysylltu â chi mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn a'r sylwadau a gyflwynwyd gennych, ac unrhyw waith ychwanegol a wneir fel rhan o'r adolygiad hwn. Wrth ymateb i'r ymgynghoriad, rhowch wybod i ni a ydych am i ni gadw'ch manylion cyswllt a chysylltu â chi at y dibenion hyn. Os penderfynwch eich bod yn fodlon i ni barhau i gysylltu â chi, cewch roi gwybod i ni, ar unrhyw adeg, nad ydych am i ni wneud hynny mwyach.

## Ceisiadau am wybodaeth a wneir i Gomisiwn y Cynulliad

Os gwneir cais am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth mynediad at wybodaeth, gall fod angen datgelu'r cyfan neu rywfaint o'r wybodaeth a roddwyd gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a gafodd ei dileu o'r blaen gan y Bwrdd Taliadau at ddibenion cyhoeddi. Dim ond os yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith y bydd y Bwrdd yn gwneud hynny.

## Eich hawliau

Caiff eich data personol eu prosesu er mwyn i'r Bwrdd Taliadau ymgymryd â thasg er budd y cyhoedd.

Os hoffech:

- arfer unrhyw un o'r hawliau sydd gennych o dan y ddeddfwriaeth (megis yr hawl i ofyn am gael mynediad at eich data eich hun);
- gofyn cwestiwn; neu
- gwyno am sut y defnyddiwyd eich gwybodaeth;

**cysylltwch â'r ysgrifenyddiaeth**.

Gallwch hefyd gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os ydych yn credu nad ydym wedi defnyddio eich gwybodaeth yn unol â'r gyfraith. Ceir manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar ei gwefan – **www.ico.org.uk**

# 1. Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad

Mae'r adran isod yn rhoi trosolwg o adolygiad y Bwrdd o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad.

## Cefndir

1.1. Mae'r Bwrdd Taliadau (y Bwrdd) yn gorff annibynnol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y taliadau a'r adnoddau cywir ar gael i Aelodau'r Cynulliad (Aelodau) ymgymryd â'u rôl wrth ddangos gwerth am arian i'r pwrs cyhoeddus. Mae manylion llawn swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Bwrdd wedi'u nodi ym **Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.**

1.2. Mae'r Bwrdd, fel yr amlinellir yn ei **strategaeth,** wedi ymrwymo i gyhoeddi ei Benderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad flwyddyn cyn etholiad cyffredinol Cymru yn 2021 er mwyn rhoi gwybod i'r holl ddarpar ymgeiswyr. Ym mis **Rhagfyr 2018** cytunodd y Bwrdd ar y cylch gorchwyl canlynol ar gyfer ei adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad:

- addasrwydd lefel y gefnogaeth a ddarperir yn y Penderfyniad;
- hyblygrwydd, rhagnodoldeb a hygyrchedd y darpariaethau;
- gonestrwydd, atebolrwydd, rhesymoldeb a thryloywder y gwariant sydd ar gael.

1.3. Mae'r Bwrdd wedi cytuno i gynnal ei adolygiad mewn tair rhan a fydd yn ystyried y materion a amlinellir isod:

- Rhan un: Gwariant Llety Preswyl, Lwfans Teithio a Chostau Swyddfa Aelodau;
- Rhan dau: Cymorth i’r Aelodau a Chymorth i Bleidiau Gwleidyddol;
- Rhan tri: Tâl Aelodau ac Aelodau sy'n gadael eu swyddi.

1.4. Ar ôl ystyried y materion sy'n codi o dan bob rhan, bydd y Bwrdd yn cyhoeddi ymgynghoriad i ofyn am farn ar ei gynigion i ddiwygio unrhyw ddarpariaethau o fewn y rhan honno. Unwaith y bydd y Bwrdd wedi cwblhau ei adolygiad o'r tair rhan, bydd ymgynghoriad terfynol ar y Penderfyniad yn ei gyfanrwydd yn cael ei gyhoeddi, er mwyn sicrhau bod y pecyn cymorth ariannol i Aelodau yn parhau i fod yn addas at y diben. Mae dyddiadau dros dro ar gyfer y cyfnodau ymgynghori ar gael ar **wefan y Bwrdd**.

1.5. Pe bai Comisiwn y Cynulliad yn penderfynu cyflwyno deddfwriaeth fel rhan o'i Raglen Diwygio'r Cynulliad, mae'r Bwrdd yn ymwybodol y byddai gofyn iddo ystyried p'un a oes

angen cynnig unrhyw newidiadau pellach i'r Penderfyniad i adlewyrchu'r cynigion deddfwriaethol. Bydd y Bwrdd yn monitro'r rhaglen waith hon i sicrhau bod ei adolygiad yn ystyried unrhyw newidiadau cyfansoddiadol.

## Methodoleg

1.6. Yn ystod y Cynulliad hwn, mae'r Bwrdd wedi cynnal nifer o ymarferion ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn cael adborth ar y ffordd y caiff y Penderfyniad ei weithredu'n ymarferol. Roedd y cyfleoedd hyn yn cynnwys digwyddiadau ymgysylltu a chyfarfodydd gydag Aelodau a staff cymorth, ymweliadau â swyddfeydd ar draws y gogledd a'r de, arolygon a chyfarfodydd rheolaidd gyda chynrychiolwyr Aelodau a staff.

1.7. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd drwy'r gwahanol ddulliau hyn hefyd wedi'i hategu gan waith ymchwil allanol a gomisiynwyd gan y Bwrdd. Drwy dendr agored, comisiynodd y Bwrdd **Ganolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd** i ganfod beth yw'r **rhwystrau a'r cymhellion o ran ymgeisio mewn etholiad yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.** Yn dilyn ymarfer tendro dilynol, comisiynodd y Bwrdd Capital People i gynnal gwerthusiad o rôl yr Uwch Gynghorydd, sydd eto i'w gwblhau.

1.8. Er mwyn sicrhau bod pob penderfyniad yn dryloyw, yn atebol ac yn adlewyrchu amodau'r farchnad, mae'r Bwrdd hefyd wedi ystyried y darpariaethau cyfredol yn erbyn ffynonellau gwybodaeth eraill gan gynnwys:

- defnydd yr Aelodau o'r amrywiol lwfansau hyd yma yn ystod y Pumed Cynulliad;
- cymariaethau â'r cymorth sydd ar gael i gynrychiolwyr etholedig mewn deddfwrfeydd eraill yn y DU;
- cymariaethau ag amrywiol fesurau eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

1.9. Mae gweddill y ddogfen hon yn amlinellu cynigion ymgynghori'r Bwrdd.

# 2. Gwariant ar Lety Preswyl

2.1. Mae pennod pedwar o'r Penderfyniad yn amlinellu'r cymorth sydd i ddigolledu’r Aelodau am gostau ychwanegol y mae’n rhaid iddynt eu hysgwyddo wrth aros dros nos i ffwrdd o’u prif gartrefi mewn perthynas â chyflawni eu rôl fel Aelodau.

2.2. Caiff prif gartref Aelod ei roi mewn un o dri chategori (yn seiliedig ar leoliad); sef yr ardaloedd mewnol, rhyngol ac allanol (fel yr amlinellir yn adrannau 4.2-4.4 y Penderfyniad). Ar gyfer pob ardal mae lefel gyfatebol o gymorth ar gyfer llety dros nos yng Nghaerdydd. Mae'r Bwrdd yn adolygu gwerth y lwfansau sydd ar gael ar gyfer pob ardal yn flynyddol i sicrhau eu bod yn parhau'n addas i'r diben.

2.3. Mae'r bennod hefyd yn amlinellu lefel y cymorth sydd ar gael i Aelodau am aros dros nos y tu allan i Gaerdydd, pe bai angen, wrth gyflawni eu dyletswyddau fel Aelod etholedig.

## Trafod y dystiolaeth

2.4. Wrth ystyried y cymorth llety a ddarperir yn y deddfwrfeydd eraill, nododd y Bwrdd fod y darpariaethau'n amrywio rhywfaint yn ymarferol ond bod rhai cysondeb yn y trefniadau sydd ar gael i gynrychiolwyr etholedig.

2.5. Yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon, mae Aelodau ond yn gymwys i hawlio lwfans teithio blynyddol, ac mae ei werth yn seiliedig ar ba etholaeth y mae'r Aelod yn ei chynrychioli. Mae'r Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol (IPSA) yn darparu dwy lefel o gymorth i Aelodau Seneddol, un ar gyfer y rhai sy'n cynrychioli etholaethau Llundain a'r rhai nad ydynt yn gwneud. Mae Senedd yr Alban yn gweithredu system debyg i'r Cynulliad lle caiff cymorth ei rhannu'n dri chategori gwahanol yn seiliedig ar ba mor bell ydynt o'r ddeddfwrfa. Fodd bynnag, mae lefel y gyfarwyddeb sydd gan bob deddfwrfa ar gyfer eu systemau lwfansau yn amrywio.

2.6. Mae'r Bwrdd yn ymwybodol, ers 2012, fod “trefniadau pontio” wedi'u rhoi ar waith ar gyfer Aelodau sydd wedi prynu eu hail gartref cyn y Trydydd Cynulliad er mwyn parhau i dderbyn ad-daliad am log morgais yr eiddo. Gall yr Aelodau hynny hefyd hawlio swm nad yw'n fwy na £882 i dalu am gostau atgyweirio hanfodol sydd eu hangen ar yr eiddo.

2.7. Bu'r Bwrdd hefyd yn ystyried yr adborth a gafodd gan Aelodau ar y lwfans hwn yn ogystal â'r defnydd a wnaed gan Aelodau hyd yma yn ystod tymor y Cynulliad hwn.

## Casgliadau

2.8. Ystyriodd y Bwrdd yn ofalus fanteision ac anfanteision y system bresennol o gymorth yn ogystal â'r opsiynau sydd ar gael iddo i ddiwygio'r ffiniau ar gyfer pob un o'r tair ardal. Ar ôl ystyried, mae'r Bwrdd yn fodlon bod y tri chategori o gymorth llety a ddarperir i Aelodau yn parhau i fod yn addas i'r diben ac mai dyma'r opsiwn mwyaf addas i'r Cynulliad fel y mae wedi'i gyfansoddi ar hyn o bryd. Mae'r Bwrdd yn credu bod ei benderfyniad i gynyddu'r lwfans ardal ryngol hefyd yn helpu i fynd i'r afael â phryderon a fynegwyd nad yw'r lwfans bellach yn cyfateb i'r galw cynyddol i'r Aelodau aros ym Mae Caerdydd dros nos. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn credu bod angen newidiadau mewn mannau eraill yn y lwfans. Nodir y rhain isod yn ôl ardal. Nid yw'r Bwrdd yn cynnig unrhyw newidiadau i'r darpariaethau ar gyfer yr Aelodau hynny sy'n byw yn yr ardal fewnol.

*Ardal allanol*

2.9. Mae rhai Aelodau yn dal yn gymwys i hawlio taliadau llog morgais am eu hail gartref a swm nad yw'n fwy na £882 i dalu am atgyweiriadau hanfodol i'r eiddo o dan “drefniadau pontio” a roddwyd ar waith ar ddiwedd y Trydydd Cynulliad (paragraffau 4.4.9-4.4.10). Er bod nifer yr Aelodau sy'n hawlio'r darpariaethau hyn wedi lleihau dros y blynyddoedd, ni roddwyd dyddiad terfyn ar gyfer y darpariaethau gan y Bwrdd blaenorol. At ddibenion atebolrwydd a gonestrwydd wrth ddefnyddio arian cyhoeddus, mae'r Bwrdd yn credu bod yn rhaid iddo gyflwyno dyddiad terfyn ar gyfer y darpariaethau hyn. Felly, mae'r Bwrdd yn bwriadu cael gwared ar y darpariaethau hyn ar ôl diddymu'r Cynulliad presennol.

2.10. Pe bai'r Bwrdd yn penderfynu gweithredu ei gynnig yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, disgwylir y bydd gan yr Aelodau hynny yr effeithir arnynt ychydig llai na dwy flynedd i wneud trefniadau eraill ar gyfer eu llety yng Nghaerdydd. Mae hyn gryn dipyn yn hirach na'r cyfnod o dri mis a ddarperir pan fydd Aelod yn colli ei sedd.

*Ardaloedd rhyngol ac allanol*

2.11. Fel yr amlinellwyd yn y Penderfyniad, disgwylir i Aelodau sicrhau nad yw unrhyw hawliadau a wneir yn arwain at fudd ariannol personol uniongyrchol neu anuniongyrchol amhriodol. Dylid nodi nad yw'r Bwrdd yn ymwybodol o unrhyw achos o gamddefnyddio arian mewn perthynas ag ad-daliadau o adneuon cytundeb rhent. Serch hynny, gan fod yr adneuon hyn yn cael eu hariannu gan y pwrs cyhoeddus, mae'r Bwrdd o'r farn y dylai'r rheolau ar y mater hwn amlinellu disgwyliadau Aelodau ar gyfer defnyddio'r cronfeydd hyn. I'r perwyl hwn, mae'r Bwrdd yn bwriadu mewnosod y ddarpariaeth ganlynol i'r Penderfyniad ar ôl paragraffau 4.3.1 a 4.4.5 yn y drefn honno, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i bob ad-daliad o gytundebau rhent gael eu dychwelyd i

Gomisiwn y Cynulliad. Mae'r Bwrdd o'r farn y bydd cyflwyno'r darpariaethau hyn yn helpu i sicrhau atebolrwydd pellach dros ddefnyddio arian cyhoeddus. Mae'r paragraff a gynigir fel a ganlyn:

> Rhaid dychwelyd yr holl ad-daliadau o gytundebau rhent, gan gynnwys bondiau blaendal rhent a ddychwelwyd, i'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau.

**Cynnig 1. Byddai'r Bwrdd yn croesawu eich barn ar ei gynnig i ddileu, o adeg y diddymiad nesaf sy'n debygol o ddigwydd ym mis Ebrill 2021, y trefniadau pontio sydd ar waith i Aelodau hawlio taliadau llog morgais ac arian ar gyfer atgyweiriadau hanfodol ar eiddo y maent yn berchen arno.**

**Cynnig 2. Byddai'r Bwrdd yn croesawu eich barn ar ei gynnig i gyflwyno darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelodau ddychwelyd unrhyw ad-daliadau o gytundebau rhent i'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau.**

# 3. Lwfans Costau Swyddfa

3.1. I gynorthwyo Aelodau gyda'u dyletswyddau fel cynrychiolwyr etholedig, mae pennod pump o'r Penderfyniad yn nodi y gellir ad-dalu Aelodau am gostau rhesymol sy'n gysylltiedig â rhedeg swyddfa ac ymgysylltu ag etholwyr.

3.2. Mae hawl gan Aelodau hawlio un o ddwy gyfradd lwfans ar gyfer rhedeg swyddfa, yn amodol ar ble maent yn penderfynu cyflawni eu dyletswyddau. I'r rhai sy'n gweithio yn swyddfeydd y Cynulliad ym Mae Caerdydd yn unig, gallant hawlio hyd at £4,912 y flwyddyn. I'r Aelodau hynny sy'n dewis cynnal swyddfa yn eu hetholaeth neu eu rhanbarth gallant hawlio hyd at £18,260 y flwyddyn.

3.3. Mae'r bennod hefyd yn amlinellu'r mathau o gostau a ganiateir y gall Aelodau eu hawlio, sy'n cynnwys rhent swyddfa a chostau cysylltiedig (trydan, dŵr ac ati), costau diogelwch, costau llogi ystafelloedd a hysbysebu ar gyfer cymorthfeydd a deunydd ysgrifennu a chyflenwadau swyddfa nas darperir gan Gomisiwn y Cynulliad.

## Trafod y dystiolaeth

3.4. Trafododd y Bwrdd y darpariaethau gwahanol sydd ar gael o fewn y lwfans yn ogystal â chyfanswm gwariant blynyddol Aelodau yn erbyn y lwfans. Edrychodd y Bwrdd p'un a oedd tystiolaeth o gostau rhentu swyddfeydd uwch mewn gwahanol rannau o Gymru ac a ddylid diwygio'r lwfans cyflenwi dodrefn swyddfa i adlewyrchu arfer gwirioneddol.

3.5. Wrth ystyried y darpariaethau sydd ar gael mewn deddfwrfeydd eraill yn y DU, nododd y Bwrdd fod cysondeb ac amrywiad yn y darpariaethau i gefnogi Aelodau etholedig.

3.6. Trafododd y Bwrdd hefyd **adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad,** sy'n cymeradwyo nifer o awgrymiadau a wnaed gan y Comisiynydd Safonau. Roedd hyn yn cynnwys awgrym y dylai Aelodau gynnal arolygon a gwiriadau priodol cyn ymgymryd â swyddfa. Ystyriodd y Bwrdd hefyd a oedd arferion o'r fath yn bodoli mewn mannau eraill a darganfuwyd y canlynol:

- Mae rhai o ddeddfwrfeydd eraill y DU yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau etholedig gael cyngor cyfreithiol cyn llofnodi prydles ac i roi adneuo o'r brydles gyda'r awdurdod seneddol perthnasol;

- Nid oes gan unrhyw un o'r deddfwrfeydd eraill restr wirio ar gyfer Aelodau o ran dewis swyddfa;

– Mae gan y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau ganllawiau ar gyfer Aelodau gydag awgrymiadau ar y camau i'w cymryd wrth ddod o hyd i swyddfa etholaethol neu ranbarthol, ond nid yw'n orfodol.

3.7. Er mwyn cryfhau'r darpariaethau y cyfeiriwyd atynt uchod, trafododd y Bwrdd pa opsiynau pellach y dylid eu hystyried i sicrhau cywirdeb ac atebolrwydd ar gyfer gwario arian trethdalwyr. Roedd yr opsiynau hyn yn cynnwys cyflwyno cyfres o egwyddorion y mae'n rhaid i bob swyddfa gadw atynt, yn ogystal â ph'un a ddylid rhoi terfyn ar nifer y swyddfeydd y gellir eu hariannu o'r Penderfyniad.

3.8. Trafododd y Bwrdd hefyd y lwfans 'Cyflenwi dodrefn swyddfa' a amlinellir yn adran 6.3 o'r Penderfyniad. Unwaith eto, nododd y Bwrdd fod y defnydd gwirioneddol o lwfans yn amrywio o eiriad y ddarpariaeth a allai atal Aelodau rhag defnyddio'r lwfans yn briodol.

3.9. Yn olaf, trafododd y Bwrdd faterion a godwyd mewn perthynas â'r rhestr o eitemau a ganiateir y mae Aelodau'n gymwys i'w hawlio o dan y lwfans, eitemau fel papurau newydd ac offer TGCh. Trafododd y Bwrdd a oedd y rhestr o eitemau a ganiateir yn dal yn berthnasol a ph'un a oedd angen ei diweddaru.

## Casgliad

3.10. Er bod y mwyafrif sylweddol o Aelodau yn sicrhau bod eu gwariant yn dod o fewn y rheolau a amlinellir yn y Penderfyniad, mae'r Bwrdd yn cymryd ei amcan o ddifrif i sicrhau bod y system o gymorth ariannol yn dryloyw ac yn diogelu'r pwrs cyhoeddus. Mae'r Bwrdd wedi cytuno i ymgynghori ar yr awgrymiadau a wnaed gan y Comisiynydd Safonau ar newidiadau i'r lwfans hwn. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd o'r farn y dylid cyflwyno darpariaethau pellach i ddiogelu trethdalwyr Cymru rhag achosion o gamddefnyddio arian.

3.11. Gyda'r Cynulliad bellach yn sefydliad deddfwriaethol llawn, mae'r Bwrdd o'r farn bod mwy o rym yn golygu mwy o gyfrifoldeb, ac o ganlyniad, bod y cyhoedd yn disgwyl mwy. Gan mai swyddfeydd etholaethol a rhanbarthol yw'r math cyntaf yn aml, ac weithiau yr unig fath o gyswllt y gall etholwyr eu cael gyda'r Cynulliad a'r Aelodau, mae'r Bwrdd o'r farn y dylai'r lleoliadau hyn hefyd fod yn amodol ar gyfres o egwyddorion gorfodol. Felly, mae'r Bwrdd yn cynnig, erbyn diwedd tymor haf cyntaf y Chweched Cynulliad (y disgwylir iddo ddod i ben ddiwedd mis Gorffennaf 2021), rhaid i bob swyddfa a ariennir o'r Penderfyniad gydymffurfio â'r gyfres ganlynol o egwyddorion:

– Parch y Cynulliad: Dylai pob swyddfa adlewyrchu statws a phwysigrwydd y Cynulliad fel sefydliad cenedlaethol a bod yn ymwybodol mai'r swyddfa yw wyneb lleol y Cynulliad;

- Diogel: Dylai pob swyddfa fod yn ddiogel, yn weladwy ac yn hawdd eu cyrraedd drwy drafnidiaeth gyhoeddus a mannau hygyrch i bawb sy'n eu defnyddio;
- Agored a chroesawgar: Dylai pob swyddfa gael eu staffio gan weithwyr cyflogedig.

3.12. Mae'r Bwrdd yn bwriadu mewnosod yr egwyddorion a amlinellir uchod yn y Penderfyniad fel bod y disgwyliadau hyn yn amlwg ac yn glir. Os derbynnir y cynnig, gall yr Aelodau wneud ceisiadau am gymorth ariannol o dan y Gronfa Cydraddoldeb a Mynediad fel yr amlinellir yn adran 1.6 a'r gronfa Diogelwch Swyddfa fel yr amlinellir yn adran 6.5 o'r Penderfyniad.

3.13. Yn ogystal â'r egwyddorion gorfodol hyn, mae'r Bwrdd yn bwriadu ffurfioli'r canllawiau ar gaffael swyddfa etholaeth neu ranbarthol sydd ar gael i Aelodau ar hyn o bryd, fel ei fod yn dod yn weithdrefn, drwy gyflwyno'r ddarpariaeth ganlynol i'r Penderfyniad:

> Rhaid i Aelod ystyried y weithdrefn ar gyfer caffael
> swyddfa etholaeth neu ranbarthol os yw am gael ei hariannu o'r Penderfyniad.

3.14. Caiff y weithdrefn hon ei diwygio hefyd i gynnwys yr awgrymiadau a wnaed gan y Comisiynydd Safonau yn yr adroddiad y cyfeirir ato ym mharagraff 3.6.

3.15. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnig, o ddechrau'r Chweched Cynulliad, y bydd yn ofynnol i bob Aelod wneud prisiadau cost rhentu ar swyddfeydd y maent yn dymuno eu hariannu. Byddai hyn ond yn berthnasol i unrhyw swyddfeydd newydd a ariennir o ddechrau'r Chweched Cynulliad ymlaen. Cynigir hefyd y dylai fod yn ofynnol i Aelodau ofyn am gyngor cyfreithiol ar eu prydlesi swyddfa ac adneuo copi o'u prydles i'r tîm Cymorth Busnes i’r Aelodau. Mae'r Bwrdd yn credu y bydd y cynigion hyn, ynghyd â'r rhai a amlinellir uchod, yn sicrhau bod mwy o dryloywder a chywirdeb yn y system gyfan. I'r perwyl hwn, mae'r Bwrdd yn bwriadu mewnosod paragraff newydd yn adran 6.7 o'r Penderfyniad fel a ganlyn:

> Ni chaniateir i Aelod sy’n rhentu swyddfa yn eu hetholaeth neu ranbarth wneud cais am Lwfans Costau Swyddfa mewn perthynas â rhent y swydd honno oni bai:
>
> a) bod yr Aelod, cyn gwneud y cytundeb i rentu’r swyddfa, wedi hysbysu’r tîm Cymorth Busnes i’r Aelodau am y cynnig;
>
> b) bod prisiwr a enwebwyd gan y tîm Cymorth Busnes i’r Aelodau wedi rhoi gwybod i’r tîm bod y rhent arfaethedig yn rhesymol;
>
> c) bod cyngor cyfreithiol ar brydles eu swyddfa wedi'i dderbyn cyn cytuno;

ch) bod copi o’r cytundeb sydd wedi’i weithredu wedi cael ei adneuo gyda’r tîm Cymorth Busnes i’r Aelodau.

3.16. Fodd bynnag, yr Aelod, nid Comisiwn y Cynulliad, fyddai’n gyfrifol am sicrhau y cynhelir y gweithgaredd hwn, a bod y sicrwydd priodol ar waith. Fel y cyfryw, mae’r Bwrdd yn bwriadu darparu eglurder ar y pwynt hwn drwy fewnosod darpariaeth ychwanegol yn adran 6.1 fel a ganlyn:

Mae’r Aelodau’n gyfrifol am sicrhau bod yr holl brydlesi, contractau a dogfennau perthnasol eraill sy’n ymwneud â’r lwfans hwn yn cydymffurfio â’r gyfraith ac egwyddorion cymorth ariannol. Dim ond am gadw’r ddogfennaeth hon at ddibenion cofnodi gwybodaeth y mae Cymorth Busnes i’r Aelodau’n gyfrifol.

3.17. Trafododd y Bwrdd hefyd a oedd angen newid i'r lwfans cyflenwi dodrefn swyddfa. Mae'r Bwrdd yn cydnabod y gall gymryd amser i Aelodau newydd eu hethol benderfynu sut y dylai eu swyddfeydd weithredu, ac felly mae'r Bwrdd o'r farn bod lle i ymestyn yr amser y bydd y lwfans hwn ar gael. Mae'r Bwrdd yn cynnig caniatáu i Aelodau barhau i allu defnyddio'r lwfans hwn am weddill y flwyddyn ariannol yn dilyn etholiad fel ar hyn o bryd, ond hefyd ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol hefyd. Mae'r Bwrdd yn credu y bydd hyn yn rhoi digon o amser i Aelodau newydd eu hethol benderfynu sut y maent am weithredu eu swyddfeydd cyn gwneud unrhyw newidiadau. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnig diwygio geiriad y lwfans hwn i ymestyn ei ddefnydd i gynnwys unrhyw newidiadau y gallai Aelodau ddymuno eu gwneud i'w swyddfeydd fel addurno neu ddiweddaru unrhyw osodiadau a ffitiadau. Felly mae'r Bwrdd yn bwriadu ail-enwi a diwygio geiriad y ddarpariaeth hon fel a ganlyn:

**Lwfans cychwyn swyddfa**

Mae gan Aelodau sy’n dymuno sefydlu swyddfa etholaethol neu ranbarthol am y tro cyntaf hawl i wneud archeb untro ar gyfer dodrefn swyddfa er mwyn darparu’r offer i’r swyddfa honno. Gall Aelodau hefyd ddefnyddio'r lwfans i helpu i sefydlu'r swyddfa ar gyfer busnes, gall gynnwys mân newidiadau i gynllun neu ailaddurno os yw'r costau'n rhesymol ac yn unol â'r egwyddorion ariannol. Mae lwfansau eraill ar gael er mwyn gwella hygyrchedd a diogelwch y swyddfa.

Mae’r tîm Cymorth Busnes i’r Aelodau ar gael i roi cyngor ar ddewis dodrefn a materion eraill ynglŷn â sefydlu swyddfa am y tro cyntaf. Rhaid i’r Aelodau cymwys gyflwyno cais ysgrifenedig am yr eitemau y maent yn dymuno eu harchebu i’w cymeradwyo gan y tîm Cymorth Busnes i’r Aelodau.  Bydd cost yr eitemau a gwaith adnewyddu a gymeradwywyd yn cael ei thalu o’r cronfeydd canolog (ac nid o’r Lwfans Costau Swyddfa), yn amodol ar uchafswm lwfans o £5,000.

Yn amodol ar baragraff 6.3.5 isod, rhaid i hawliad yn erbyn y ddarpariaeth hon gael ei wneud erbyn diwedd y flwyddyn ariannol yn dilyn y flwyddyn ariannol y gwnaeth yr Aelod ddychwelyd, naill ai mewn etholiad neu is-etholiad. Ac ni chaniateir unrhyw hawliadau pellach.

3.18. Mae gwasanaeth TGCh Comisiwn y Cynulliad yn darparu offer TGCh i swyddfeydd Aelodau. Gall Aelodau hefyd brynu offer ychwanegol gyda chytundeb (a ariennir o'r Lwfans Costau Swyddfa), ond, ar hyn o bryd, nid oes angen i Aelodau sicrhau bod yr offer hwn yn gydnaws â systemau TGCh y Cynulliad. Mae'r Bwrdd o'r farn, os prynir offer ychwanegol o'r Lwfans Costau Swyddfa, y dylai fod yn gydnaws â'r holl systemau perthnasol ac y bydd yn sicrhau y gellir gosod a defnyddio'r holl offer yn rhwydd. Felly mae'r Bwrdd yn bwriadu mewnosod y cymal a amlinellir isod yn y Penderfyniad, ar ôl paragraff 6.4.4. sy'n datgan:

Rhaid i Aelodau sy'n dymuno prynu offer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ychwanegol i gefnogi gwaith eu swyddfa gyflwyno cais ysgrifenedig ar gyfer yr eitemau cyn eu prynu i'w cymeradwyo gan y tîm Cymorth Busnes i’r Aelodau. Rhaid prynu'r offer drwy Gomisiwn y Cynulliad i sicrhau eu bod yn gydnaws â systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r Cynulliad.

3.19. Bu'r Bwrdd hefyd yn adolygu'r rhestr o eitemau a ganiateir y gellir eu hawlio ar eu cyfer o dan y lwfans hwn (fel yr amlinellir yn adran 6.2 o'r Penderfyniad) gan nad yw'r rhestr wedi newid llawer ers iddi gael ei chyflwyno ac nid yw mwyach yn adlewyrchu defnydd amrywiol ac ehangach y lwfans. Trafododd y Bwrdd a ddylid diwygio'r rhestr hon i adlewyrchu newidiadau mewn defnydd, megis ymgorffori costau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu. Fodd bynnag, cytunodd y Bwrdd y byddai angen adolygu'r rhestr hon yn rheolaidd i adlewyrchu newidiadau yn y defnydd o'r lwfans, na ellir rhagweld rhai ohonynt ar hyn o bryd. Felly, mae'r Bwrdd yn cynnig dileu'r rhestr gyfredol o eitemau yn yr adran hon yn ei chyfanrwydd a'i disodli gyda meysydd treuliau eang y gall yr Aelodau eu hawlio, sydd wedi'u hamlinellu fel a ganlyn:

**Costau swyddfa**

Gall Aelodau hawlio yn erbyn y lwfans am gostau rhesymol sy'n gysylltiedig â chynnal swyddfa ac ymgysylltu â'u hetholwyr. Os bydd unrhyw amheuaeth, dylid cyfeirio at y tîm Cymorth Busnes i’r Aelodau.

3.20. Pe bai'r cynnig hwn yn cael ei dderbyn yn dilyn ymgynghoriad, bydd y Bwrdd yn gweithio gyda'r tîm Cymorth Busnes i’r Aelodau i nodi pa eitemau y mae'n eu hystyried yn rhesymol i'w hawlio. Os na fydd Aelodau yn cytuno ag unrhyw benderfyniad mewn perthynas â'r hyn y maent am ei hawlio, byddant yn gallu apelio yn erbyn y penderfyniadau hynny yn y broses a amlinellir yn adran 1.4 o'r Penderfyniad.

**Cynnig 3. Byddai'r Bwrdd yn croesawu eich barn ar ei gynnig i gyflwyno'r egwyddorion gorfodol ar gyfer swyddfeydd a ariennir drwy'r Penderfyniad fel yr amlinellir.**

**Cynnig 4. Byddai'r Bwrdd yn croesawu eich barn ar ei gynigion i ffurfioli'r canllawiau ar gyfer caffael swyddfeydd.**

**Cynnig 5. Byddai'r Bwrdd yn croesawu eich barn ar ei gynigion i gyflwyno darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelodau gynnal prisiad costau ar eu swyddfa ac adneuo copi o'r brydles gyda'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau fel yr amlinellwyd.**

**Cynnig 6. Byddai'r Bwrdd yn croesawu eich barn ar ei gynnig i ddiwygio'r lwfans cyflenwi dodrefn swyddfa fel yr amlinellwyd.**

**Cynnig 7. Byddai'r Bwrdd yn croesawu eich barn ar ei gynnig i'w gwneud yn ofynnol bod yr holl offer TGCh ychwanegol yn cael eu prynu drwy Gomisiwn y Cynulliad er mwyn sicrhau eu bod yn gydnaws â systemau TGCh y Cynulliad.**

**Cynnig 8. Byddai'r Bwrdd yn croesawu eich barn ar ei gynnig i ddiwygio'r rhestr o eitemau a ganiateir fel yr amlinellwyd.**

# 4. Siwrneiau'r Aelodau

4.1. Mae'r Penderfyniad yn rhoi cymorth ar gyfer gwahanol fathau o siwrneiau i Aelodau ar fusnes y Cynulliad. Mae hefyd yn nodi pa gymorth sydd ar gael i staff cymorth ac aelodau o'r teulu a allai fod angen teithio rhwng eu hetholaeth neu ranbarth a Chaerdydd.

## Trafod y dystiolaeth

4.2. Edrychodd y Bwrdd ar y gwahanol ddarpariaethau sydd ar gael i Aelodau, staff cymorth ac aelodau'r teulu yn y bennod hon o'r Penderfyniad. Er bod data arolygon blaenorol a gasglwyd gan y Bwrdd wedi nodi bod Aelodau a staff yn ffafrio rhai newidiadau; mae'r defnydd cyffredinol gan Aelodau a staff cymorth yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'r darpariaethau sydd ar gael, yn parhau i fod yn addas fel y maent ar hyn o bryd.

4.3. Trafododd y Bwrdd a yw'n briodol i'r Penderfyniad gynnwys darpariaethau ynghylch Aelodau yn teithio ar fusnes pwyllgorau. Mae hyn oherwydd bod y trefniadau hyn fel arfer yn cael eu gwneud neu eu had-dalu gan wasanaeth perthnasol y Comisiwn ac felly yn cael eu talu o gyllideb wahanol i'r Penderfyniad.

4.4. Gyda disgwyl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd (yr UE) yn y dyfodol agos, trafododd y Bwrdd hefyd ddyfodol y darpariaethau sydd ar gael i Aelodau ar gyfer teithio i Frwsel a'r UE.

## Casgliad

4.5. Fel yr amlinellir ym mharagraff 4.3., Mae'r Bwrdd o'r farn bod angen diwygio'r darpariaethau sy'n amlinellu cymorth ar gyfer siwrneiau pwyllgorau er mwyn adlewyrchu arfer cyfredol. Gan nad yw siwrneiau ar gyfer pwyllgorau yn cael ei ariannu o Benderfyniad y Bwrdd Taliadau, mae'r Bwrdd yn bwriadu dileu'r ddarpariaeth yn ei chyfanrwydd a'i disodli â'r geiriau canlynol:

> **Teithio ar fusnes pwyllgor**
>
> Mae trefniadau ac ad-daliadau ar gyfer teithio ar fusnes pwyllgor yn fater i Gomisiwn y Cynulliad ac ysgrifenyddiaeth y pwyllgor ac nid yw wedi'i gynnwys yn y Penderfyniad.

4.6. Mae'r Bwrdd o'r farn y bydd y cynnig fel yr amlinellwyd yn cyflwyno eglurder i'r Penderfyniad drwy sicrhau bod Aelodau a staff cymorth yn ymwybodol o bwy sy'n ariannu pob math o deithio busnes. Bydd y Bwrdd yn ysgrifennu at Gomisiwn y Cynulliad yn amlinellu ei gynnig gan y bydd yn benderfyniad i'r Comisiwn os yw'n

dymuno llunio ei egwyddorion ei hun ar gyfer teithio o'r fath pe bai'r Bwrdd yn cytuno i weithredu ei gynnig.

4.7. Gan fod angen i nifer sylweddol o feysydd polisi datganoledig ymgysylltu'n rheolaidd â'r UE, mae'r Bwrdd yn teimlo bod y cymorth presennol sydd ar gael i Aelodau yn ddigonol ac felly nid yw'n credu bod angen unrhyw newid. Fodd bynnag, mae lefel o ansicrwydd ar hyn o bryd ynghylch y berthynas rhwng Cymru a'r UE yn y dyfodol ac mae'r Bwrdd yn teimlo y bydd angen iddo ailystyried y darpariaethau hyn eto unwaith y bydd mwy o eglurder ar gael ar y berthynas yn y dyfodol.

**Cynnig 9. Byddai'r Bwrdd yn croesawu eich barn ar ei gynnig i ddiwygio'r cymalau ar gyfer teithio ar fusnes pwyllgorau fel yr amlinellwyd.**

# 5. Cydraddoldeb

5.1. Fel yr amlinellir yn ei strategaeth ar gyfer 2016-2021, un o egwyddorion y Bwrdd yw cael dealltwriaeth well o'r cymhellion dros sefyll etholiad i'r Cynulliad, a'r rhwystrau rhag gwneud hynny. At hynny, mae'r Bwrdd am sicrhau bod y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad yn galluogi ac yn cefnogi amrywiaeth mor eang â phosibl o ymgeiswyr i fod yn Aelodau'r Cynulliad.

5.2. Byddai'r Bwrdd yn croesawu unrhyw farn sydd gennych am y canlynol:

- a ellid cael goblygiadau i bobl ag unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig yn sgil y cynigion a amlinellir yn y ddogfen hon.
- a yw'r materion a godwyd gennych yn ystod yr ymgynghoriad hwn wedi cael effaith neu a allent gael effaith bosibl ar bobl sy'n uniaethu â'r nodweddion gwarchodedig fel y'i diffinnir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?

5.3. Noder mai'r nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.